Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymladd Twyll yn y System Les: Mynd ymhellach

CP 1072W

# Ymladd Twyll yn y System Les: Mynd ymhellach

Cyflwynwyd i'r Senedd

gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mai 2024

CP 1072W

© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn fed.policyandlegislation@dwp.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4892-9

E03125787 05/24

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

Rhagair Gweinidogol....................................................................2
Cryndodeb Gweithredol..................................................................3

# Rhagair Gweinidogol

Mae cefnogaeth y cyhoedd i’n system les yn dibynnu ar fod yn ffyddiog fod arian trethdalwyr yn mynd i’r rhai sydd ei angen yn hytrach nag i droseddwyr.

Dyna pam na allwn ganiatáu i dwyllwyr fanteisio ar y system na thosturi pobl Prydain.

Ers i ni osod ein Cynllun Twyll yn 2022, gwnaethom arbed dros £1 biliwn i'r trethdalwr ac yn yr un flwyddyn gwnaethom leihau twyll a gwallau yn y system les gan 10%.

Rydym wedi mynd i'r afael â miloedd o bobl a oedd yn cael Credyd Cynhwysol yn dwyllodrus. Rydym yn deddfu i roi mynediad gwell i ni at ddata a gedwir gan drydydd partïon, fel banciau, fel y gallwn ganfod twyll yn fwy rhagweithiol ac arbed £600 miliwn i'r trethdalwr. Ac rydym yn mynd i’r afael â gangiau troseddau cyfundrefnol sy'n targedu'r system les. Diolch i waith ymchwilwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwnaethom fynd i’r afael â gang twyll budd-daliadau mwyaf Prydain, gan sicrhau euogfarnau am dwyll Credyd Cynhwysol gwerth £50 miliwn.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol ac yn cyfleu neges glir: os byddwch yn ystyried twyllo DWP, yna peidiwch â gwneud hynny, oherwydd byddwn yn dod o hyd i chi ac yn gweithredu yn eich erbyn.

O ystyried bod twyll yn parhau i fod yn fygythiad cynyddol ac rydym yn gwybod bod pobl o hyd sy'n benderfynol o gamddefnyddio'r system, rydym yn parhau i fynd i’r afael â’r sawl sy’n twyllo a gwneud beth bynnag sydd ei angen i'w canfod.

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ym mis Ebrill eleni, byddwn yn cyflwyno rhagor o bwerau cyfreithiol yn y senedd nesaf i ymdrin â thwyll budd-daliadau fel twyll treth. Rydym yn treblu maint ein timau sy'n adolygu miliynau o hawliadau Credyd Cynhwysol am dwyll neu wallau posibl ac rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn arbed £6.6 biliwn erbyn 2027/28. Ac rydym yn atal twyll yn y system les wrth ei tharddiad gyda dadansoddeg data datblygedig, drwy ddefnyddio dysgu peirianyddol, a gwneud gwelliannau parhaus i'r system fudd-daliadau.

Gyda'r camau yr ydym eisoes wedi'u hymgymryd â nhw, a'n cynllun i fynd ymhellach fyth, rydym yn atal twyll ac yn rhoi tegwch wrth wraidd ein system les.

Y Gwir Anrhydeddus Mel Stride, AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau



# Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed gennym wrth fynd i'r afael â'r lefelau uchel o dwyll a gwallau yn y system les ac yn amlinellu lle byddwn yn mynd ymhellach. Mae'n adrodd yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaethom yn ein 'Cynllun Twyll'- *Fighting Fraud in the Welfare System* - ac mae'n amlinellu beth arall yr ydym eisoes yn ei wneud i sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu arian trethdalwyr rhag y sawl sy'n twyllo.

Ers y pandemig, mae dros £8 biliwn y flwyddyn wedi'i ordalu oherwydd twyll a gwallau yn y system les. Ond mae ein ffocws ar gyflenwi ein Cynllun Twyll wedi gweld DWP yn: buddsoddi yn ein gweithwyr proffesiynol gwrth-dwyll a'n dadansoddeg data sy'n bodloni ein hamcan i recriwtio 2,000 o asiantau Adolygu Achosion wedi'u Targedu a 1,400 o weithwyr proffesiynol gwrth-dwyll; cyflwyno deddfwriaeth newyddd a fydd, os caiff ei phasio, yn rhoi pwerau cyfreithiol newyddd i DWP i fynd i'r afael â thwyll a gwallau; a harneisio pŵer y sector cyhoeddus a phreifat ar y cyd.

Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad o 10% mewn twyll a gwallau yn y system les yn 2022/23, ac rydym hefyd wedi arbed £1.1 biliwn i'r trethdalwr o'n gweithgareddau gwrth-dwyll pwrpasol. O'i gyfuno â'n rheolaethau, rydym yn amcangyfrif bod ein rheolaethau a'n gweithgareddau wedi atal bron i £18 biliwn o golledion yn 2022/23. Yn 2023/24, yn seiliedig ar ein hamcangyfrifon arbedion cychwynnol, rydym wedi arbed £1.35 biliwn gan weithgareddau gwrth-dwyll sy'n fwy na'r targed o £1.3 biliwn a bennwyd gennym.

Rydym wedi bod yn cyflenwi'r cynllun hwn yn erbyn cefndir heriol. Dengys tystiolaeth ar draws yr economi bod cynnydd hirdymor ar gyfartaledd o ran ymddygiad twyllodrus ac ysgafnhad o ran agweddau tuag at dwyll, ac rydym hefyd o'r farn eu bod yn effeithio ar y system les.

Nid ydym yn cymryd hyn yn ganiataol. Rydym yn canolbwyntio ar gyflenwi ein Cynllun Twyll ac rydym eisoes yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â thwyll a gwallau yn y system les. Rydym yn gwneud buddsoddiadau pellach yn ein rheng flaen gwrth-dwyll, ac rydym yn symud ein ffocws tuag at atal twyll yn ei darddiad drwy ddefnyddio datblygiadau mewn technoleg fodern, gan gynnwys Deallusrwydd Artiffisial. Yn ogystal â hyn, fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Ebrill 2024, byddwn yn cyflwyno Bil Twyll yn y senedd nesaf i foderneiddio ein fframwaith cyfreithiol ymhellach er mwyn i ni ymdrin â thwyll budd-daliadau fel twyll treth a rhoi'r teclynnau sydd eu hangen arnynt i'r rhai sy'n ymdrin â thwyll, er mwyn mynd i'r afael â'r sawl sy'n ymelwa ar y system les ac yn cymryd mantais ar drethdalwyr gweithgar sy'n ei hariannu.

Mae'r llywodraeth wedi buddsoddi'n sylweddol i gydbwyso cymorth lles hygyrch wrth fynd i'r afael â thwyll. Os bydd y Llywodraeth yn parhau i wneud hynny, bydd ein Cynllun Twyll yn arbed £9 biliwn erbyn 2027/28 ac ar ben hynny, bydd ein mesur casglu data trydydd partïon yn arbed £600 miliwn ychwanegol erbyn 2028/29.